



Home Office

Gwahardd Cleddyfau Ninja - Disgrifiad Cyfreithiol ac Amddiffyniadau

Ymateb y Llywodraeth

27 Mawrth 2025

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyflwyniad	5
Diffiniad Cyfreithiol	5
Amddiffyniadau	5
3. Crynodeb o Ymatebion	6
4. Ymateb y Llywodraeth – Crynodeb	7
Diffiniad Cyfreithiol	8
Amddiffyniadau	8
5. Dadansoddiad Cwestiwn-wrth-Gwestiwn	9
6. Camau Nesaf	13
7. 7. Methodoleg Dadansoddi'r Ymgynghoriad	13

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i haneru troseddau cyllyll o fewn degawd** ac mae'n dilyn amrywiaeth o fesurau i gyflawni'r nod hwn. Rydym eisoes wedi gwahardd cyllyll a machetes ar ffurf sombi, yn bwriadu cyflwyno mesurau atebolrwydd personol yn erbyn uwch swyddogion gweithredol cwmnïau technoleg sy'n torri'r rheolau ynghylch cyllyll yn y Bil Troseddu a Phlisma sydd ar ddod ac wedi comisiynu adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o werthiannau cyllyll ar-lein i sicrhau nad yw llafnau peryglus yn y pen draw yn y dwylo anghywir. Mae Clymblaid i Fynd i'r Afael â Throseddau Cyllyll wedi'i sefydlu i achub bywydau a gwneud Prydain yn lle mwy diogel i'r genhedlaeth nesaf ac mae'r Llywodraeth wedi sefydlu'r Rhaglen Dyfodol Ifanc, sy'n ceisio ymyrryd yn gynharach i atal pobl ifanc rhag cael eu denu i droseddu.
- 1.2. Rhan o ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth oedd gwahardd cleddyfau Ninja.** Er ein bod yn cydnabod bod cleddyfau Ninja weithiau'n cael eu perchnogi a'u defnyddio'n gyfreithlon ac yn gyfrifol, mae'r Llywodraeth yn ymdrechu i gyfyngu ar fynediad a chyfyngu ar gylchrediad cleddyfau Ninja i'w hatal rhag cael eu defnyddio fel arfau mewn trosedd.
- 1.3. Byddwn yn ychwanegu cleddyfau Ninja at y rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig** a nodir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Gorchymyn Arfau Ymosodol) 1988. Bydd hyn yn golygu y bydd yn dod yn drosedd gweithgynhyrchu, mewnfario, gwerthu a chyflenwi neu feddu ar gleddyf Ninja yn gyffredinol, oni bai bod amddiffyniad yn berthnasol.
- 1.4. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu cynigion ar y diffiniad cyfreithiol o gleddyf Ninja a'r amddiffyniadau a ddylai fod yn berthnasol.** Rydym wedi profi'r cynigion fel rhan o ymgynghoriad pedair wythnos, gan geisio barn y cyhoedd, grwpiau â buddiant a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- 1.5. Er mwyn dal y mathau o gleddyfau a fwriadwyd, ac i gyfyngu ar ddal cyllyll a chleddyfau sy'n cael eu defnyddio fel arfer at ddibenion cyfreithlon, mae ein disgrifiad gweithredol wedi'i seilio ar y disgrifiad safonol o gleddyf Ninja.** Rydym wedi cynnwys yr hyn a elwir yn bwynt arddull 'Reverse Tanto' i ddiogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol. Rydym wedi darparu diffiniadau pellach o amgylch y minion, gan ei gwneud yn gliriach pa elfen o'r cleddyf rydym yn cyfeirio ati. Rydym hefyd yn cynnig bod y rhan fwyaf o'r amddiffyniadau sydd ar gael ar gyfer cyllyll tebyg i sombi a chleddyfau crwm yn cael eu hystreyn i fod ar gael i gleddyfau Ninja hefyd.
- 1.6. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng dydd Mercher 13 Tachwedd a dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024.** Roedd yr ymgynghoriad yn agored i bob aelod o'r cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn

crynhai barn yr ymatebwyr ar y cynigion i'r ymgynghoriad, ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf.

- 1.7. Cawsom gyfanswm o 312 o ymatebion.** Roedd hyn yn cynnwys ymatebion o ddolen SmartSurvey a thrwy e-byst i'r blwch post pwrpasol (ninja-swords-consultation@homeoffice.gov.uk).
- 1.8. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â chynigion y Llywodraeth.** Roedd 64% o ymatebwyr yn gefnogol, gyda 33% ddim yn gefnogol a 3% ddim yn rhoi barn.
- 1.9. Er bod rhai ymatebwyr yn ofni y byddai gwaharddiad yn anfwriadol yn cosbi'r rhai sy'n berchen ar gleddyfau ninja at ddibenion cyfreithlon, roedd eraill am i'r Llywodraeth fynd ymhellach.** Dywedodd eraill nad oeddent yn meddwl y byddai gwahardd cleddyfau Ninja yn cyfrannu at ostyngiad mewn troseddoldeb gyda chyllyll. Galwodd rhai pobl am fesurau diogelu parhaus rhag amddiffyniadau.
- 1.10. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran am fynegi barn.** Mae ymatebion wedi cael eu hystyried fel rhan o'r cam nesaf i wahardd cleddyfau Ninja.

2. Cyflwyniad

- 2.1. Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i wahardd cleddyfau Ninja**, rydym wedi datblygu disgrifiad cyfreithiol gweithredol o gleddyfau Ninja a ddylai ddod o fewn cwmpas y gwaharddiad.
- 2.2. Gan weithio gyda'r heddlu ac amrywiol grwpiau rhanddeiliaid â buddiant**, rydym wedi datblygu diffiniad cyfreithiol o amgylch nodweddion safonol cleddyfau Ninja nodweddiadol. Rydym yn credu y bydd y diffiniad cyfreithiol yn dal cleddyfau Ninja yn gywir heb wahardd eitemau eraill fel canlyniad anfwriadol.
- 2.3. Rydym yn cynnig bod y rhan fwyaf o'r amddiffyniadau presennol ar gyfer rhai erthyglau llafnog eraill yn cael eu hymestyn i gleddyfau Ninja.** Bydd hyn yn gwarchod y defnyddiau cyfreithlon sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bwysigrwydd hanesyddol a gweithgareddau a ganiateir.

Diffiniad Cyfreithiol

- 2.4. Roedd y diffiniad cyfreithiol a brofwyd gennym fel rhan o'r ymgynghoriad hwn fel a ganlyn:**

Erthygl llafn sefydlog gyda llafn rhwng 14-24 modfedd (hyd y llafn yw'r pellter llinell syth o ben y ddolen i flaen y llafn) gyda:

- (i) Min torri syth sengl; a;*
- (ii) Pwynt arddull tanto – wrth ddweud pwynt arddull tanto, rydym yn golygu pwynt sy'n cael ei greu gan y min torri'n newid cyfeiriad mewn llinell syth fer (o'i gymharu â hyd cyffredinol y llafn), gydag ongl (rhwng y prif min torri hir a min torri byr eilaidd ar y blaen) sydd yn fwy na 90 gradd ac yn parhau hyd at ffurfio pwynt o lai na 90 gradd, lle mae'r min torri byr eilaidd yn cwrdd â'r meingefn. Ni ddylai'r min torri byr eilaidd wyro mewn hyd o fwy na 5% yn fwy neu'n llai na lled y llafn yn syth ar ôl y carn; neu*
- (iii) Pwynt arddull tanto wedi'i wrthdroi - wrth wrthdroi'r pwynt arddull tanto, rydym yn golygu pwynt sy'n cael ei greu wrth i'r min torri newid cyfeiriad mewn llinell syth fer (o'i gymharu â hyd cyffredinol y llafn), gydag ongl (rhwng y prif min torri hir a min torri byr eilaidd ar y blaen) yn llai na 90 gradd ac yn parhau i ffurfio pwynt o fwy na 90 gradd, lle mae'r min torri byr eilaidd yn cwrdd â'r meingefn. Ni ddylai'r min torri byr eilaidd wyro mewn hyd o fwy na 5% yn fwy neu'n llai na lled y llafn yn syth ar ôl y carn.*

Amddiffyniadau

- 2.5. Roedd yr amddiffyniadau presennol sydd ar gael i arfau ymosodol eraill, y buom yn ymgynghori â nhw lle roedd angen eu hymestyn i gleddyfau Ninja, fel a ganlyn:**

- *Mae'r arf yn hynafol (dros 100 oed).*
- *Swyddogaethau a gyflawnir ar ran y Goron neu lu sy'n ymweld.*
- *Mae'r eitem o bwysigrwydd hanesyddol.*
- *Sicrhau bod yr arfau ar gael i amgueddfa neu oriel mewn rhai amgylchiadau.*
- *Dibenion addysgol.*
- *Cynhyrchu rhai ffilmiau neu raglenni teledu penodol.*
- *Perfformiadau theatrig ac ymarferion perfformiadau o'r fath.*
- *Wedi'i wneud cyn 1954.*
- *Wedi'i wneud ar unrhyw adeg arall yn unol â'r dulliau traddodiadol o wneud cleddyf â llaw.*
- *Rhesymau crefyddol.*
- *Seremonïau crefyddol.*
- *Defnydd mewn gweithgareddau a ganiateir (er enghraifft ail-greu hanesyddol neu weithgareddau chwaraeon).*
- *Pŵl.*

3. Crynodeb o Ymatebion

Ymatebwyr

- 3.1. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, cawsom gyfanswm o 312 o ymatebion: 301 o ymatebion trwy SmartSurvey ac 11 o ymatebion e-bost.** Cawsom 141 o ymatebion rhannol, na chawsant eu hystyried fel rhan o'r dadansoddiad. Ystyriwyd bod ymateb rhannol yn golygu diffyg caniatâd i gynnwys safbwyntiau ar ein dadansoddiad.
- 3.2. Er mwyn annog cymaint o ymgysylltu â phosibl gan bob aelod o'r cyhoedd, ni wnaethom fandadu i ddatgelu lleoliad daearyddol wrth gwblhau ymatebion.** Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu pennu lleoliadau sydd wedi mynegi diddordeb uchel neu isel ac effaith amrywiol y cynigion hyn.
- 3.3. Yn yr un modd, ni wnaethom fandadu datgelu rolau proffesiynol ymatebwyr.** Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pwysau cyfartal yn cael ei roi ar bob un o'r ymatebion, yn ystod y dadansoddiad.
- 3.4. O'r rhai a ddewisodd ddatgelu'r wybodaeth hon, cawsom gyfanswm o 18 yn hunan-adrodd naill ai fel perchennog neu werthwr.** O ddadansoddi hyn ymhellach, roedd 15 yn berchnogion a thri yn werthwyr.

- 3.5. O ran ein cynigion ynghylch y diffiniad cyfreithiol (fel y nodir ym mharagraff 2.4), cawsom gefnogaeth gyffredinol o 64%.** Roedd 33% yn anghytuno â'n cynigion ac ni roddodd 3% farn.
- 3.6. O ran ein cynigion am yr amddiffyniadau (fel y nodir ym mharagraff 2.5), cawsom gefnogaeth gyffredinol o 58%.** Roedd 39% yn anghytuno â'n cynigion ac ni roddodd 3% farn.
- 3.7. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn meddwl bod y Llywodraeth yn mynd yn ddigon pell gyda'r cynigion.** Galwodd 15% o ymatebwyr am waharddiad cyffredinol ar bob eitem â llafn.
- 3.8. Roedd peth pryder hefyd nad yw'r cynigion yn debygol o gyfrannu at leihau troseddau cyllyll.** Dywedodd 10% o'r ymatebwyr nad ydynt yn meddwl y bydd y mesurau hyn yn cyfrannu at amcanion y Llywodraeth o ran haneru troseddau cyllyll o fewn degawd. Anaml y defnyddir cleddyfau ninja mewn digwyddiadau treisgar felly mae gwaharddiad yn annhebygol o gael effaith sylweddol. At hynny, mae ymatebwyr wedi awgrymu y bydd troseddau yn dod o hyd i ddulliau eraill o gyflawni troseddau a thrais sy'n cael eu galluogi gan gyllyll yn absenoldeb cleddyfau Ninja. Dywedodd rhai y bydd y mesurau hyn yn y cyd-destun hwn, yn anfwriadol, yn cosbi'r rhai sy'n berchen ar gleddyfau Ninja ac yn eu defnyddio am resymau dilys fel ymarferwyr neu gasglwyr crefftau ymladd.
- 3.9. Cafwyd sylwadau hefyd am yr angen i ddarparu amddiffyniadau.** Mae 6% wedi gofyn i amddiffyniadau fod ar gael ar gyfer bod yn berchen ar, gwerthu a gweithgynhyrchu cleddyfau Ninja.

4. Ymateb y Llywodraeth – Crynodeb

- 4.1. Gan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion.** Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.5 a 3.6, mae cefnogaeth eang i'r cynigion ar gyfer y diffiniad cyfreithiol a'r amddiffyniadau. Bydd Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manylach o ymateb y Llywodraeth.
- 4.2. Er ein bod yn cytuno mai dim ond at nifer fach o ddigwyddiadau treisgar y mae cleddyfau Ninja yn cyfrannu,** bydd cymryd camau rhagataliol i wahardd yr arfau peryglus hyn yn arwain at lai o gleddyfau Ninja mewn cylchrediad ac yn lleihau'r risg y bydd cleddyfau o'r fath yn cael eu defnyddio i lofruddio neu achosi anafiadau difrifol neu i fygwth rhywun. Bydd cael gwared ar arfau bygythiol o'r fath o gylchrediad yn helpu i adfer hyder y cyhoedd ac yn helpu'r heddlu i gymryd camau effeithiol yn erbyn unrhyw un sy'n dal i gael cleddyf o'r fath.

Diffiniad Cyfreithiol

4.3. O ran y diffiniad cyfreithiol, mae'r Llywodraeth wedi nodi'r ymatebion a bydd yn gwneud rhai diwygiadau i wneud y disgrifiad yn gliriach ac yn fwy cywir fel y nodir isod.

Yr arf a elwir weithiau yn "gleddyf ninja", sef cleddyf gyda —

- i) llafn y mae ei hyd o leiaf 14 modfedd, ond heb fod yn fwy na 24 modfedd (hyd y llafn yw'r pellter llinell syth o ben y ddolen i flaen y llafn),*
- ii) prif fin torri syth,*
- iii) min torri syth eilaidd,*
- iv) meingefn pŵl, a*
- v) naill ai pwynt arddull tanto neu bwynt arddull tanto wedi'i wrthdroi.*

a) mae gan gleddyf bwynt arddull tanto —

os yw'r ongl rhwng ei phrif fin torri syth a'i min torri syth eilaidd yn ongl o fwy na 90 gradd, ac os yw'r ongl rhwng ei min torri syth eilaidd a'i meingefn yn ongl o lai na 90 gradd.

b) mae gan gleddyf bwynt arddull tanto wedi'i wrthdroi —

os yw'r ongl rhwng ei phrif fin torri syth a'i min torri syth eilaidd yn ongl o lai na 90 gradd, ac os yw'r ongl rhwng ei min torri syth eilaidd a'i meingefn yn ongl o fwy na 90 gradd.

c) prif fin torri syth yw min torri hiraf cleddyf sy'n cysylltu'n syth â'r handlen;

d) mae min torri syth eilaidd yn fin torri — sy'n ffurfio ongl gyda'r prif fin torri syth a'r meingefn, ac nad yw'n fwy na 5% yn hirach neu'n fyrrach o ran hyd na lled y llafn yn syth ar ôl yr handlen.

Amddiffyniadau

4.4. Ar amddiffyniadau, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymhwyso'r rhan fwyaf o'r amddiffyniadau presennol (gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i gleddyfau crwm) i gleddyfau Ninja, o dan y diffiniad cyfreithiol.

4.5. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus y sylwadau am amddiffyniadau a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr. Ein bwriad yw darparu amddiffyniadau ar gyfer cleddyfau Ninja sy'n cael eu gwneud â llaw, sy'n hen bethau, sydd o bwysigrwydd hanesyddol, sydd i'w defnyddio mewn gweithgareddau a ganiateir ac ail-greu, neu lle mae'r llafn yn ddi-fin.

5. Dadansoddiad Cwestiwn-wrth-Gwestiwn

5.1. Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad fesul cwestiwn o'r ymatebion a gawsom yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â disgrifiad cyfreithiol y Llywodraeth o gleddyfau Ninja?

5.2. O'r 301 o ymatebion, atebodd 194 (64%) "Ydw" i'r cwestiwn. Ymatebodd 98 (33%) "Na". Ni roddodd y gweddill farn.

5.3. O'r rhai a ymatebodd "Ydw", dewisodd 91 o ymatebwyr (47%) beidio â datgelu eu rôl, nododd 44 (23%) eu bod yn aelodau o'r cyhoedd, hunan-adroddodd 44 (23%) eu bod o wahanol broffesiynau, hunan-gofnododd 11 (6%) eu bod yn gasglwyr neu'n aelodau o grwpiau â buddiant a dywedodd 3 (2%) eu bod yn dod o sefydliadau trydydd sector. Nid oedd y gweddill a ddarparodd wybodaeth yn ffitio i unrhyw un o'r categorïau neu nid oeddent yn ymateb i'r cwestiwn yn briodol.

5.4. O'r rhai a ymatebodd "Na", dewisodd 39 (40%) o ymatebwyr beidio â datgelu eu rôl, nododd 25 (26%) eu bod yn aelodau o'r cyhoedd, hunan-adroddodd 19 (19%) eu bod o wahanol broffesiynau, nododd 9 (9%) eu bod yn gasglwyr neu'n aelodau o grwpiau â buddiant ac roedd 1 (1%) yn hunan-adrodd eu bod yn dod o sefydliad trydydd sector. Darparodd y gweddill wybodaeth nad oedd yn ffitio i unrhyw un o'r categorïau hyn neu nid oeddent yn ymateb i'r cwestiwn yn briodol.

Ymateb y Llywodraeth:

5.5. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen o dan y diffiniad cyfreithiol gyda rhai diwygiadau. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn gliriach yr elfennau o'r cleddyfau rydym yn cyfeirio atynt pan ydym yn pennu hydoedd (fel diffinio'r hyn a olygwn wrth brif finion torri a rhai eilaidd). Gan ystyried pryderon llawer o ymatebwyr ynghylch lefelau dealltwriaeth o'r termau 'cleddyf Ninja' a 'tanto' – rydym wedi ymhelaethu ar yr hyn a olygwn wrth ddweud pwynt arddull tanto.

Cwestiwn 2: A oes unrhyw nodweddion pellach y dylem ystyried eu cynnwys?

5.6. O'r 301 o ymatebion, ymatebodd 118 (39%) "Oes" i'r cwestiwn. Ymatebodd 161 (53%) "Na". Ni roddodd y gweddill farn. O hyn, rydym wedi dadansoddi bod 63% yn cefnogi'r cynigion, 33% heb fod yn gefnogol ac 1% yn awgrymu gwelliant i'r diffiniad cyfreithiol arfaethedig.

5.7. Defnyddiodd llawer o bobl yr adran hon i alw am waharddiad llwyr ar bob eitem lafnog. Mae eraill wedi nodi y bydd gwahardd cleddyfau Ninja yn arwain at droseddwyd yn defnyddio erthyglau

llafnog eraill i gyflawni trais. Mae rhai pobl wedi gofyn i fesurau rheoleiddio pellach gael eu rhoi ar waith i atal perchnogaeth a chylchrediad cyllyll. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau trwyddedu, gwiriadau ID mwy cadarn, cynyddu'r terfyn oedran ar gyfer prynu cyllyll a sancsiynau ar gwmnïau sy'n torri'r rheolau. Mae llawer o bobl wedi gofyn i'r amddiffyniadau gael eu darparu ar gyfer cleddyfau Ninja - at ddefnydd gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig) i arddio, chwaraeon, ac ar gyfer eitemau hynafol. Mae rhai ymatebwyr wedi gofyn y dylid darparu canlyniadau cyfreithiol llymach fel rhwystr, gan gynnwys dedfrydau carchar hwy. Gofynnodd rhai ymatebwyr i'r Llywodraeth ystyried diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn atal gweithgynhyrchwyr rhag gweithio o amgylch y diffiniad cyfreithiol i gynhyrchu cleddyfau Ninja. Mae rhai ymatebion wedi awgrymu y gallai defnyddio'r gair 'tanto' i ddisgrifio blaen cleddyf ninja fod yn ddryslyd, gan fod tanto hefyd yn fath o gyllell.

Ymateb y Llywodraeth:

- 5.8.** Datblygwyd y diffiniad cyfreithiol i atal cyllyll a chleddyfau nad ydynt yn gleddyfau Ninja ac nad ydym yn bwriadu eu gwahardd ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu cyfyngu ar a rhwystro mynediad i gleddyfau Ninja, a fydd yn arwain at lai o gleddyfau Ninja mewn cylchrediad. Bydd hyn yn golygu bod cleddyfau Ninja yn cael eu defnyddio llai ar gyfer troseddau treisgar. Rydym yn ceisio diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol drwy gynnwys y "pwynt tanto gwrthdro" yn y diffiniad cyfreithiol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd gweithgynhyrchwyr yn ceisio gweithio o amgylch y diffiniad cyfreithiol i gynhyrchu cleddyfau Ninja gyda phwynt tanto wedi'i wrthdroi.
- 5.9.** Rydym hefyd wedi ceisio diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol drwy gynnwys llafnau â hyd rhwng 14 a 24 modfedd. Nid yw'n gyffredin dod o hyd i gleddyfau Ninja mor fyr â 14 modfedd, ond rydym am osgoi bod cleddyfau byrrach ar gael. Bydd y Llywodraeth yn diwygio'r geiriad yn y diffiniad cyfreithiol i egluro ein bod, drwy ddweud 'tanto' yn cyfeirio at fath o bwynt a gysylltir fel arfer â chleddyfau Ninja modern ac nid at gyllell Japaneaidd draddodiadol.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n berchen ar gleddyf Ninja?

- 5.10.** O'r 301 o ymatebion, atebodd 15 (5%) "Ydw" i'r cwestiwn. Ymatebodd 282 (94%) "Na". Ni roddodd y gweddill farn.
- 5.11.** Prynodd y rhan fwyaf o bobl eu cleddyfau Ninja ar-lein, ag ychydig wedi ei phrynu mewn siop. Honnodd ymatebwyr eu bod wedi talu rhwng £101 a £500 am eu cleddyfau, a'r prisiau mwyaf cyffredin a dalwyd oedd rhwng £150 a £200.

Ymateb y Llywodraeth:

- 5.12. Bydd yr wybodaeth am y swm a dalwyd am gleddyfau Ninja yn helpu i gynllunio ar gyfer y Cynllun Ildio Cleddyf Ninja, y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Llywodraeth ei ddarparu o dan yr amgylchiadau hyn.

Cwestiwn 4: A ydych yn gweithgynhyrchu cleddyfau Ninja yng Nghymru a Lloegr?

- 5.13. O'r 301 o ymatebion, atebodd 0 (0%) "Ydw" i'r cwestiwn. Ymatebodd 296 (98%) "Na". Ni roddodd gweddill yr ymatebwyr farn.

Ymateb y Llywodraeth:

- 5.14. Nid oes digon o ddata wedi'i dderbyn yn yr ymgynghoriad i asesu effaith ein cynigion ar weithgynhyrchwyr.

Cwestiwn 5: A ydych yn gwerthu cleddyfau Ninja yng Nghymru a Lloegr?

- 5.15. O'r 301 o ymatebion, atebodd tri (1%) "Ydw" i'r cwestiwn. Ymatebodd 294 (98%) "Na". Ni roddodd y gweddill farn.
- 5.16. O'r tri ymateb, adroddodd dau eu bod yn gwerthu llai na 1,000 o unedau'r flwyddyn, ac un rhwng 5,001 a 10,000 o unedau. Dywedodd un ei fod yn gwerthu am bris manwerthu cyfartalog o dan £10, un rhwng £51 a £100 ac un dros £500. Dywedodd un fod ganddo lai na 1,000 o unedau ar ôl mewn stoc, un rhwng 10,001 a 100,000 o unedau ac un heb ddim ar ôl mewn stoc. Roedd y tri gwerthwr yn cyflogi llai na 10 o bobl.

Ymateb y Llywodraeth:

- 5.17. Mae'r gwerthiannau fesul blwyddyn wedi cadarnhau ein rhagdybiaethau bod llai o gleddyfau Ninja ar y farchnad o gymharu ag eitemau llafnog eraill. Ar ben hynny, mae nifer y busnesau sy'n gwerthu cleddyfau Ninja yn gymharol isel.

Cwestiwn 6: Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio pennu maint y farchnad a chylchrediad cleddyfau Ninja. Os yw'n berthnasol, rhowch unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth bellach ar faint o gleddyfau Ninja sy'n cael eu dosbarthu neu eu gwerthu'n flynyddol yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.

- 5.18. O'r 301 o ymatebion, rhoddodd chwech (2%) ymateb.
- 5.19. Dywedodd yr holl ymatebion eu bod yn ddyfaliadau yn seiliedig ar brofiad personol. Roedd dau ymatebwr o'r farn bod llai na 1,000 o gleddyfau Ninja mewn cylchrediad neu'n cael eu gwerthu'n

flynyddol. Roedd un yn meddwl ei fod rhwng 1,001 a 5,000. Roedd un yn meddwl ei fod rhwng 10,001 a 100,000. Roedd dau ymatebwr yn meddwl ei fod dros 100,000.

Ymateb y Llywodraeth:

5.20. Nid ydym yn ystyried bod y wybodaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddigon cryf i'w defnyddio ar gyfer ein hasesiad o'r effaith economaidd.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r amddiffyniadau a'r eithriadau arfaethedig sy'n ymwneud â chleddyfau Ninja?

5.21. O'r 301 o ymatebion, atebodd 175 (58%) "Ydw" i'r cwestiwn. Ymatebodd 116 (39%) "Na". Ni roddodd gweddill yr ymatebwyr farn.

5.22. O'r rhai a ymatebodd "Ydw", dewisodd 79 o ymatebwyr (45%) beidio â datgelu eu rôl, dywedodd 37 (21%) eu bod yn aelodau o'r cyhoedd, hunan-adroddodd 38 (22%) eu bod o wahanol broffesiynau, hunan-gofnododd 15 (9%) eu bod yn gasglwyr neu'n aelodau o grwpiau â buddiant a dywedodd dau (1%) eu bod yn dod o'r trydydd sector. Nid oedd y gweddill a ddarparodd wybodaeth yn ffitio i unrhyw un o'r categorïau neu nid oeddent yn ymateb i'r cwestiwn yn briodol.

5.23. O'r rhai a ymatebodd "Na", dewisodd 52 (45%) o ymatebwyr beidio â datgelu eu rôl, dywedodd 29 (25%) eu bod yn aelodau o'r cyhoedd, hunan-adroddodd 22 (19%) eu bod o wahanol broffesiynau a nododd tri (3%) eu bod yn gasglwyr neu'n aelodau o grwpiau â buddiant. Darparodd yr ymatebion a oedd yn weddill wybodaeth nad oedd yn ffitio i unrhyw un o'r categorïau hyn neu nid oeddent yn ymateb i'r cwestiwn yn briodol.

Ymateb y Llywodraeth:

5.24. Bydd y Llywodraeth yn ymestyn rhai o'r amddiffyniadau presennol (gan gynnwys amddiffyniadau clefyddau crwm) i gleddyfau Ninja unwaith y daw'r gwaharddiad i rym.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw amddiffyniadau pellach y dylem ystyried eu cynnwys?

5.25. O'r 301 o ymatebion, rydym wedi dadansoddi bod 168 o ymatebion (56%) yn cefnogi'r cynigion, 114 o ymatebion (38%) heb fod yn gefnogol a thri ymateb (1%) yn awgrymu newid i'r diffiniad cyfreithiol arfaethedig. Fe wnaeth naw ymateb (3%) sylwadau a oedd yn perthyn i'r categori 'unrhyw beth arall'.

5.26. Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylai unrhyw amddiffyniadau fod ar gael i unrhyw un sy'n berchen ar gleddyfau Ninja, yn eu gwerthu neu'n eu gweithgynhyrchu. Awgrymodd eraill y dylid

cyflwyno mesurau rheoleiddio megis cronfa ddata genedlaethol o berchenogaeth cleddyfau. Awgrymodd rhai y dylai'r Llywodraeth edrych ar wahardd mathau o lafnau yn lle modelau cyffredinol gan eu bod yn honni bod llafnau rhad a rhai wedi'u cynhyrchu'n dorfol yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer bwriad treisgar. Gofynnodd ymatebwyr hefyd fod amddiffyniadau ar gael at ddibenion hen bethau, pŵl, wedi'u gwneud â llaw a chwaraeon. Gofynnwyd i ni hefyd ystyried ymestyn yr amddiffyniadau ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac at ddibenion coginio.

Ymateb y Llywodraeth:

- 5.27.** Bydd y Llywodraeth yn ymestyn y rhan fwyaf o'r amddiffyniadau presennol mewn deddfwriaeth i gleddyfau Ninja.

Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

- 5.28.** Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r Llywodraeth edrych ar wraidd y mater o droseddu â chyllyll. Tynnodd eraill sylw at ddiffyg tarddiad hanesyddol cleddyfau Ninja, gan godi pryderon bod y Llywodraeth yn ceisio gwahardd rhywbeth nad yw'n bodoli. Mae rhai hefyd wedi awgrymu'r tebygrwydd rhwng y diffiniad cyfreithiol arfaethedig o gleddyfau Ninja a mathau eraill o erthyglau llafnog.

6. Camau Nesaf

- 6.1.** **Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth** i ychwanegu cleddyfau Ninja at y rhestr o arfau gwaharddedig yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Gorchymyn Arfau Ymosodol) 1988.
- 6.2.** **Bydd y Cynllun Ildio ar gyfer Cleddyfau Ninja** yn cael ei lansio cyn i waharddiad ar gleddyfau Ninja ddod i rym. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sydd â chleddyfau Ninja yn eu meddiant i ildio eu cleddyf yn ddiogel.
- 6.3.** Bydd canllawiau atodol ar gyfer y Cynllun Ildio yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â gosod yr Offeryn Statudol.

7. Methodoleg Dadansoddi'r Ymgynghoriad

- 7.1.** **Cwblhawyd y dadansoddiad o gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd gan sawl aelod o staff y Swyddfa Gartref.** Sicrhawyd ansawdd y data meintiol gan dîm Dadansoddi a Mewnwelediad y Swyddfa Gartref.

- 7.2. Y cwestiynau a ymrestrwyd o dan Adran 5 oedd y cwestiynau fel y'u geiriwyd yn uniongyrchol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.**
- 7.3. Ystyriwyd yr holl ymatebion yn gyfartal.** Cawsom ymatebion drwy'r arolwg ar-lein a thrwy'r blwch post pwrpasol.
- 7.4. Cynhaliwyd y dadansoddiad yn erbyn ymatebion a gwblhawyd yn unig.** Ystyriwyd bod ymatebion anghyflawn neu wedi'u cwblhau'n rhannol heb ganiatâd i'w defnyddio yn ein dadansoddiad.
- 7.5. Cafodd data meintiol (h.y., cwestiynau “Ie” a “Na”) eu casglu’n awtomatig a’u trosi’n fetrigau i lywio lefelau cefnogaeth.** Defnyddiwyd y data hwn drwy gydol y ddogfen hon ac roedd yn rhagfynegi ein dadansoddiad.
- 7.6. Casglwyd data ansoddol trwy ddadansoddi'r blychau testun rhydd.** Yna cafodd hyn eu categorreiddio ymhellach i'r categori perthnasol – fel y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon (roedd hyn yn cynnwys “Cefnogi cynigion”, “Ddim yn cefnogi cynigion”, “Diwygiad i gynigion”, “Canlyniadau anfwriadol” ac “Unrhyw beth arall”). Defnyddiwyd hwn wedyn fel cyfrif i fesur safbwyntiau ehangach a nodi themâu allweddol.
- 7.7. Er bod elfen o oddrychedd wrth ddadansoddi'r ymatebion, lliniarwyd hyn** gan yr haenau ychwanegol o sicrwydd ansawdd a oedd yn gysylltiedig.
- 7.8. Mae'r holl ganrannau a ddarperir yn y ddogfen hon wedi'u darparu i'r rhif cyfan agosaf.**
- 7.9. Nid oedd yn ofynnol i ymatebwyr ymateb i bob cwestiwn i gyflwyno ymateb.** Roedd hyn yn golygu ein bod wedi cael nifer wahanol o ymatebion i bob cwestiwn. Roedd y dadansoddiad a ddarparwyd yn seiliedig ar nifer yr ymatebion a gawsom ar gyfer y cwestiwn hwnnw ac nid ar gyfanswm yr ymatebion.